Cyngor Tref Caerfyrddin
Carmarthen Town Council

PRESS RELEASE – DATGANIAD I'R WASG

GWEITHGAREDDAU SUL Y COFIO YNG NGHAERFYRDDIN

Roedd gweithgareddau Sul y Cofio yn wahanol yng Nghaerfyrddin llynedd oherwydd cyfyngiadau yn gysylltiedig â Covid 19. Er hynny, y gobaith yw eleni y bydd fwy o ymdeimlad o normalrwydd i'r Parêd a'r Gwasanaeth sydd i'w cynnal ar Ddydd Sul, 14eg o Dachwedd a gobeithir yn fawr y bydd y cyhoedd yn medru cefnogi.

Mae'r amserlen am eleni fel a ganlyn:

9.15 a.m. Bydd cyfranogwyr y parêd yn ymgynnull o flaen y Neuadd Sirol, Clos Mawr.

9.30 a.m. Bydd y Parêd yn symud ymlaen tuag at Eglwys San Pedr heibio Neuadd Ddinesig San Pedr.

10.00 a.m. Bydd y Gwasanaeth yn dechrau yn Eglwys San Pedr. A fyddwch mor garedig a nodi y bydd nifer y mynychwyr y tu fewn i'r Eglwys yn gyfyngedig oherwydd y Coronafirws parhaus.

11.00 a.m. Yn dilyn y Gwasanaeth yn yr Eglwys bydd gwasanaeth byr gyda gosod y torchau ger Cofeb y Rhyfel Sir yn Stryd y Prior pryd bydd dwy funud o dawelwch yn cael ei gynnal.

12.00 canol dydd Bydd y Parêd wedi gorymdeithio yn ôl i'r Clos Mawr ac yna bydd y Maer yn eu rhyddhau.

Alun J Harries
Clerc, Cyngor Tref Caerfyrddin – Clerk, Carmarthen Town Council
01267 235199

20fed o Hydref 2021